# Diwygiadau TGAU a Safon Uwch – gwersi a ddysgwyd

**Hydref 2018**

## Cyflwyniad

Cyflwynwyd cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd yng Nghymru rhwng 2015 a 2017 yn dilyn rhaglen ddiwygio fawr.

Fel y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol yng Nghymru, rydym wedi edrych yn ôl dros y rhaglen ddiwygio gyfan er mwyn deall yr hyn a oedd wedi gweithio'n dda a'r hyn nad oedd wedi gweithio cystal. Gwnaethom brofi ein canfyddiadau gydag ysgolion a cholegau i weld p'un a oeddent yn cytuno.[1]

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gwersi y gwnaethom eu dysgu, ynghyd â barn yr ysgolion a'r colegau y gwnaethom siarad â nhw[2].

I'r rhai sydd am wybod mwy am y newidiadau i gymwysterau TGAU a Safon Uwch a pham y cawsant eu cyflwyno, mae adran olaf yr adroddiad hwn yn rhoi esboniad cryno o'r diwygiadau, gan gynnwys pam y cawsant eu cyflwyno a sut (adran 3).

# 1. Beth wnaethom ei ddysgu?

Y prif wersi a gododd hadolygiad oedd pwysigrwydd y canlynol:

1. Ymgysylltu'n gynnar – Mae'n bwysig cyfleu'r newidiadau i'r cymwysterau, a pham bod angen newid, cyn gynted â phosibl fel bod rhanddeiliaid[3] yn gwybod amdanynt o'r dechrau.

2. Cyfathrebu cynnar a pharhaus – Mae angen cyfathrebu'n gynnar ac yn barhaus ag ysgolion a cholegau ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i gymwysterau, yr amserlen ar gyfer eu cyflwyno, pryd y gallant ddisgwyl gweld deunyddiau drafft a deunyddiau terfynol, a pha hyfforddiant ac adnoddau fydd ar gael er mwyn helpu i baratoi ar gyfer y newidiadau.

3. Prif nodweddion y cynllun – Mae angen i ysgolion a cholegau wybod prif nodweddion cymwysterau newydd ar gam cynnar. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion a cholegau roi sylwadau ar newidiadau arfaethedig ar gam cynnar a dylanwadu ar y gwaith datblygu manwl sy'n dilyn.

[1] Gwnaethom gomisiynu Wavehill Ltd, cwmni ymchwil cymdeithasol ac economaidd, i gynnal cyfweliadau lled-strwythuredig ag athrawon ac uwch reolwyr.

[2] Mae'n werth nodi bod ein hadolygiad yn ymwneud â'r broses ddiwygio yn unig; roedd cymwysterau unigol y tu allan i'r cwmpas.

[3] Mae rhanddeiliaid yn cynnwys ysgolion, colegau, cymunedau pwnc, darlithwyr, rhieni, sefydliadau cynrychioliadol (e.e. undebau athrawon), cyrff dyfarnu ac ati.

4. Amser paratoi - Mae angen digon o amser ar ysgolion a cholegau i baratoi'n ddigonol ar gyfer cyflwyno cymwysterau newydd. Dylai deunyddiau perthnasol fod ar gael o leiaf 12 mis cyn y disgwylir i'r cyrsiau ddechrau.

5. Adnoddau addysgu a dysgu – Dylid ystyried unrhyw adnoddau addysgu a dysgu newydd y bydd eu hangen ar fyfyrwyr fel rhan o unrhyw newidiadau arfaethedig i gymwysterau.

6. Adnoddau dwyieithog – Wrth wneud newidiadau i gymwysterau, mae'n rhaid i'r ystyried yr angen i'r holl ddeunyddiau ategol fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd o'r cychwyn cyntaf.

## 2. Beth oedd barn ysgolion a cholegau?

Gwnaethom brofi ein gwersi allweddol gyda 21 o athrawon ac uwch reolwyr[4] mewn 21 o ysgolion a cholegau ac mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r hyn y gwnaethant ddweud wrthym:

### Canfyddiad allweddol 1 – Ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid

Cytunodd pob athro y byddai ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod camau cynnar y broses ddiwygio yn ddefnyddiol. Ystyriwyd bod hon yn ffordd effeithiol o ddefnyddio profiad a gwybodaeth athrawon i gyfrannu at ddiwygiadau, a'u llywio, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion a realiti dysgwyr, ysgolion a cholegau yng Nghymru:

> *"Mae angen i athrawon gael llais gan mai nhw yw'r arbenigwyr. Maen nhw'n gwybod mewn gwirionedd sut y bydd pethau'n gweithio'n ar lawr gwlad a sut y bydd y newidiadau yn effeithio ar fyfyrwyr."*

### Canfyddiad allweddol 2 – Cyfathrebu cynnar a pharhaus

Nododd yr holl athrawon a gafodd eu cyfweld ei bod yn bwysig cyfathrebu'n gynnar ac yn barhaus â chanolfannau ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig a'r amserlenni, er

[4] Roedd 20 o'r cyfweleion wedi bod yn addysgu am fwy na 10 mlynedd, ac roedd 11 wedi bod yn addysgu am fwy nag 20 mlynedd.

mwyn caniatáu iddynt baratoi ar gyfer addysgu'r cymwysterau newydd, a bod yn hyderus ynglŷn â'r gwaith o'u darparu.

> *"Mae angen i ysgolion ac athrawon gael cymaint o fynediad â phosibl, a hynny mor gynnar â phosibl, oherwydd yr angen i baratoi ac addasu. Mae angen newid y ffordd y caiff cwrs newydd ei gyflwyno... Hefyd, mae newidiadau i'r cwrs yn CA4 yn ein harwain i newid y sgiliau a'r strategaethau a ddefnyddir yn CA3 fel bod y datblygiad i CA4 yn haws."*

Gwnaeth athrawon amlygu hefyd fod angen i gyfathrebu cynnar a pharhaus fod mor fanwl a chywir â phosibl:

> *"Oherwydd y newid enfawr y mae newid i'r fanyleb yn ei olygu i athrawon, o ran yr amser a dreulir yn cynllunio a pharatoi ar gyfer addysgu a darparu dwy neu dair awr yr wythnos o'r fanyleb, mae'n bwysig bod canllawiau ar gael ar y manylebau hynny ac amser i baratoi ar gyfer y newidiadau hynny."*

Canfyddiad Allweddol 3 – Prif nodweddion y cynllun

Roedd yr holl athrawon a gafodd eu cyfweld yn cytuno bod angen esbonio nodweddion lefel uchel y cymwysterau newydd yn glir ar gam cynnar. Gwnaethant awgrymu bod hyn oherwydd bod angen iddynt gael dealltwriaeth glir o nodau unrhyw gymwysterau newydd, a pham y dewiswyd y dull gweithredu hwn, fel y gallant ei esbonio i'w dysgwyr. Mae hwn yn rhywbeth y gwnaeth rhai athrawon nodi ei fod yn parhau'n her iddynt ar ôl cyflwyno'r cymwysterau newydd yn ddiweddar:

> *"Mae'n bwysig, gan fod angen i ni - fel athrawon - fod yn glir ynghylch pam fod y newidiadau hyn wedi digwydd, er mwyn i ni allu eu hesbonio'n well i fyfyrwyr... Roedd y myfyrwyr yn teimlo bod y newidiadau ond wedi cael eu cyflwyno er mwyn ei gwneud hi'n anoddach i gael y graddau uwch ac roedd yn anodd ceisio newid eu safbwynt heb ragor o wybodaeth."*

Canfyddiad allweddol 4 – Amser i baratoi

O'r 21 o athrawon a gafodd eu cyfweld, nododd 18 ohonynt eu bod yn teimlo ei bod yn iawn bod angen i ganolfannau gael digon o amser i baratoi er mwyn mynd i'r afael â chymwysterau newydd, gyda'r deunyddiau perthnasol yn barod o leiaf 12 mis cyn iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf. Gwnaethant ddweud y byddai hyn yn lleihau'r baich ar athrawon a'i fod yn ymddangos yn decach o safbwynt y dysgwyr sy'n astudio'r cymwysterau.

> *"Mae'n rhaid bod digon o amser wedi'i ganiatáu i baratoi ac ymgyfarwyddo â'r cwrs newydd. Mae'n hollbwysig bod popeth yn ei le ac wedi'i gadarnhau cyn i gwrs ddechrau, neu fel arall, bydd athrawon yn ansicr ac nid yw'n deg disgwyl i athrawon orfod paratoi'r holl adnoddau ar fyr rybudd."*

Gwnaeth yr ymarferwyr hefyd dynnu sylw at y ffaith y gall diffyg amser i baratoi gael effaith anghymesur ar ysgolion llai, yn enwedig y rheini sydd â dim ond un athro i bob pwnc, gan na allant rannu'r baich o baratoi.

Awgrymodd y tri athro arall fod angen mwy na 12 mis i baratoi'n llawn ar gyfer cyflwyno cymwysterau newydd. Nododd un athro:

> *"Mae angen llawer mwy o amser i baratoi...mae angen cyhoeddi'r bwriad i ddiwygio, ymgynghori ag ysgolion, rhoi cyfle i baratoi adnoddau ac yna, cyflwyno'r cyrsiau newydd."*

Canfyddiad Allweddol 5 - Adnoddau addysgu a dysgu

Nododd bron pawb a gafodd eu cyfweld ei bod yn hanfodol ystyried adnoddau addysgu a dysgu, yn bennaf, nodi'r hyn sydd ei angen er mwyn cyflwyno cymwysterau newydd yn llwyddiannus o'r cychwyn.

> *"Mae'n bwysig bod adnoddau o ansawdd uchel ar gael o gychwyn y cwrs, neu mae'r holl faich o baratoi adnoddau yn cwympo ar ysgwyddau'r athro."*

> *"... ac mae angen rhoi ystyriaeth i adnoddau technolegol a'r amser ychwanegol mae'n ei gymryd i'w newid."*

Gwnaeth athrawon ehangu ar y mater hwn, gan esbonio bod angen i hyn ddigwydd mewn ffordd sy'n cwmpasu'r holl bynciau – ni waeth pa mor boblogaidd ydynt – ac mae angen ystyried proffiliau gwahanol ysgolion a cholegau.

Nid oedd un athro yn cytuno bod hon yn wers allweddol, gan honni bod ysgolion yn defnyddio modelau addysgu a dysgu gwahanol ac felly'n defnyddio adnoddau mewn ffyrdd gwahanol. At hynny, nid yw newidiadau i gymwysterau bob tro'n golygu bod angen newid yr adnoddau.  Gwnaeth athrawon esbonio y dylid canolbwyntio ar ddarparu mwy o ganllawiau ar gyfer y cymwysterau a'r arholiadau.

Cam Allweddol 6 - Sicrhau bod deunyddiau dwyieithog ar gael ar yr un pryd o'r cychwyn cyntaf

Gwnaeth pob athro sy'n addysgu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg gytuno bod hwn yn wers bwysig i'w dysgu.

Cytunodd athrawon y byddai cynllunio i'r deunyddiau fod ar gael yn ddwyieithog ar yr un pryd o'r cychwyn yn dileu'r anfantais y maent yn credu y mae dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn ei hwynebu ar hyn o bryd. Awgrymwyd hefyd y byddai sicrhau bod deunyddiau dwyieithog ar gael ar yr un pryd yn gyson â hyrwyddo addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan fod y sefyllfa bresennol, mewn rhai achosion, wedi cymell dysgwyr i beidio â dewis cymwysterau iaith Gymraeg.

> "*Mae'n rhaid i adnoddau Cymraeg fod ar gael o'r cychwyn... Os na chaiff hyn ei newid ac na chaiff digon o amser ac arian ei neilltuo er mwyn paratoi adnoddau Cymraeg ... yna bydd myfyrwyr yn ystyried bod cymryd opsiwn iaith Gymraeg yn anfantais a byddant yn dewis y cyrsiau Saesneg yn lle.*"

<u>Sylwadau eraill a wnaed gan yr athrawon a gafodd eu cyfweld</u>

Ni wnaeth yr athrawon nodi unrhyw wersi ychwanegol. Fodd bynnag, gwnaeth llawer o'r cyfweleion nodi eu bod yn deall ac yn gwerthfawrogi nodau'r broses o ddiwygio cymwysterau yng Nghymru, gan nodi bod dargyfeirio o gymwysterau a ddatblygwyd ar gyfer Lloegr yn gadarnhaol ac yn bwysig:

> *"Rwy'n gallu gweld i ba gyfeiriad y mae'n ceisio mynd ac rwy'n credu ei bod yn haeddu canmoliaeth am ei huchelgais"*

> *"Rwy'n credu bod cael cymwysterau yng Nghymru yn bwysig ac mae angen iddynt fod ar wahân i Loegr*"

Fodd bynnag, pwysleisiodd athrawon fod angen mwy o amser i roi'r broses ar waith nag oedd wedi cael ei ganiatáu, a gwnaethant fynegi bod nodi'r gwersi hyn yn rhoi mwy o hyder iddynt ynghylch unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol.

# 3. Hanes y diwygio

## 3.1 Pam fod angen diwygio?

Yn 2011, comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru[5] gan bennu'r weledigaeth ar gyfer *'cymwysterau sy'n cael eu deall a'u gwerthfawrogi ac sy'n bodloni anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru.'*

Daeth yr Adolygiad o Gymwysterau at y casgliad bod angen *'datblygu system gymwysterau genedlaethol gadarn, unigryw ac o ansawdd uchel ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, a chefnogi gwahaniaeth rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU os yw hynny o fudd i ddysgwyr yng Nghymru.* Gwnaeth yr argymhelliad hwn ysgogi rhaglen helaeth o ddiwygio cymwysterau cyffredinol, gan arwain at ddylunio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd yn cael eu dylunio'n benodol i Gymru.

Ar yr un adeg â diwygio cymwysterau cyffredinol yng Nghymru, roedd cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn cael eu diwygio yn Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd. Sefydlwyd amserlen gyffredin, lle y bo'n bosibl er mwyn, hwyluso dull cydlynol o weithredu ac i beidio â rhoi mwy o faich diangen ar fyrddau arholi.

Ar ddechrau'r rhaglen ddiwygio yn 2014, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob corff dyfarnu a oedd yn cynnig cymwysterau TGAU a Safon Uwch ar y pryd er mwyn eu gwahodd i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu cymwysterau TGAU a Safon Uwch diwygiedig. CBAC oedd yr unig un a dderbyniodd y gwahoddiad. O ganlyniad, CBAC yw'r unig fwrdd arholi sy'n cynnig cymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo'n benodol i Gymru ar hyn o bryd.

Cafodd y cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd eu cyflwyno i bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru rhwng 2015 a 2017 (gweler adran 3.3 i gael rhestr o bryd y cafodd pob pwnc ei gyflwyno).

[5] Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru

## 3.2. Beth oedd prif nodweddion y diwygio?

Mae datganoli polisi addysg yn y DU wedi arwain at wahaniaeth cynyddol mewn cymwysterau rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Fodd bynnag, mae pob cymhwyster TGAU a Safon Uwch yn rhannu nodweddion cyffredin pwysig o hyd. Yn benodol, maent yn dal i fod o'r un maint ac yn cydnabod cyflawniadau'r un carfan o ddysgwyr yn gyfartal.

Caiff y tebygrwydd a'r gwahaniaethau allweddol rhwng y cymwysterau a ddatblygwyd i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon eu hesbonio'n fanylach isod.

**Newidiadau i gymwysterau Safon UG a Safon Uwch**

Nodweddion cyffredin

- Caiff graddau myfyrwyr eu cofnodi fel A* i E ar gyfer Safon Uwch ac A i E ar gyfer Safon UG.
- Mae'r gofynion o ran cynnwys yn debyg ar y cyfan ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau.
- Mae cyfran yr asesiadau nas cynhelir drwy arholiad wedi'i phennu i'r isafswm y tybir ei fod yn angenrheidiol er mwyn asesu agweddau hanfodol ar y pwnc na ellir eu hasesu'n ddilys drwy arholiad
- Mae amcanion asesu a'u pwysoliadau yr un fath yn y rhan fwyaf o bynciau
- Mae cynnwys cymwysterau Safon UG yn parhau i fod tua hanner cynnwys y cymwysterau Safon Uwch llawn.

Y prif wahaniaethau

- Mae cymwysterau UG newydd a gynlluniwyd i Gymru a Golgedd Iwerddon yn cyfrannu 40% o gyfanswm marciau'r cymhwyster Safon Uwch. Mae'r cymwysterau UG newydd a gynlluniwyd i Loegr yn gymwysterau annibynnol ac ni fyddant yn cyfrannu at ganlyniadau Safon Uwch llawn.
- Bydd cymwysterau UG a Safon Uwch newydd sydd wedi'u cynllunio i fodloni gofynion Ofqual yn gymwysterau llinol gyda'r holl arholiadau ar ddiwedd y cwrs.
- Yn y cymwysterau UG a Safon Uwch unedol sydd wedi'u cynllunio i Gymru a Gogledd Iwerddon, gall myfyrwyr ailsefyll unedau unigol unwaith yn unig. Ar gyfer pob cymhwyster UG a Safon Uwch sydd wedi'i gynllunio i Loegr, rhaid i fyfyrwyr ailsefyll pob un o'u harholiadau wrth ailsefyll y cymhwyster.

**Newidiadau i gymwysterau TGAU**

Mae mwy o wahaniaethau hefyd ar lefel pwnc rhwng y cymwysterau TGAU newydd a gaiff eu cynnig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon nag sydd rhwng y cymwysterau UG a Safon Uwch newydd.

<u>Nodweddion cyffredin</u>

- Mae cyfran yr asesiadau nas cynhelir drwy arholiad wedi'i phennu i'r isafswm y tybir ei fod yn angenrheidiol er mwyn asesu agweddau hanfodol ar y pwnc na ellir eu hasesu'n ddilys drwy arholiad. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaethau yn y gofynion cynnwys yn golygu bod cyfanswm yr asesiad diarholiad sy'n ofynnol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn wahanol mewn rhai pynciau.
- Mae asesiadau cymwysterau TGAU, ym mhob pwnc, yn gofyn i fyfyrwyr ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o bob rhan o gynnwys y pwnc. Yn y rhan fwyaf o bynciau, mae'n ofyniad cyffredin i fyfyrwyr roi ymatebion estynedig.

<u>Y prif wahaniaethau</u>

- Mae tair trefn raddio wahanol ar gyfer cymwysterau TGAU ar draws y tair gwlad.
    - Caiff cymwysterau TGAU sydd wedi'u cynllunio i Gymru eu graddio rhwng A* a G
    - Caiff cymwysterau TGAU sydd wedi'u cynllunio i Loegr eu graddio rhwng 9 ac 1
    - Caiff cymwysterau TGAU sydd wedi'u cynllunio i Ogledd Iwerddon eu graddio ar raddfa naw pwynt gan gwmpasu graddau A* i G. Mae hyn yn cynnwys gradd C* newydd a nod CCEA fydd pennu safon yn debyg i radd 5 yn Lloegr; a bydd y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu hefyd yn ceisio sicrhau bod yr A* yn gydnaws â gradd 9 yn Lloegr.
- Mae gofynion o ran cynnwys yn wahanol yn y rhan fwyaf o bynciau, er bod natur a maint y gwahaniaethau hyn yn amrywio.
- Mae'r amcanion asesu a'u pwysoliadau yn wahanol mewn rhai pynciau, gan adlewyrchu'r gwahaniaeth mewn disgwyliadau cynnwys pwnc.
- Mae rhai cymwysterau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon yn llinol ac mae eraill yn unedol. Mae TGAU sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Lloegr yn llinol.
- Ar gyfer cymwysterau TGAU llinol sydd wedi'u cynllunio i Gymru neu i Ogledd Iwerddon, rhaid i fyfyrwyr ailsefyll pob un o'u harholiadau wrth ailsefyll y cymhwyster. Ar gyfer cymwysterau unedol, gall myfyrwyr ailsefyll unedau unigol unwaith yn unig. Yn Lloegr rhaid i fyfyrwyr ailsefyll pob un o'u harholiadau wrth

ailsefyll y cymhwyster. Gellir ailddefnyddio marciau asesiad nas cynhelir drwy arholiad.

Er gwaethaf y newidiadau a gyflwynwyd, nod rheoleiddiwr cymwysterau[6] pob gwlad yw sicrhau bod y cymwysterau yn cadw'r un gwerth i'r rheini sy'n eu sefyll ac yn dibynnu arnynt, waeth pa gymhwyster bynnag a gaiff ei sefyll. O ganlyniad, mae'r rheoleiddwyr yn parhau i weithio'n agos er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar draws y tair gwlad fel y gall y cymwysterau barhau i ennyn hyder y cyhoedd.

## 3.3. Sut y gwnaethom ddiwygio yng Nghymru?

Cafodd y cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd eu cyflwyno dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2015 a 2017.

Cafodd yr holl gymwysterau a gyflwynwyd i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2015 eu hachredu gan Lywodraeth Cymru. Pan sefydlwyd Cymwysterau Cymru yn 2015, cafodd y cymwysterau hyn eu trosglwyddo i ni fel cymwysterau cymeradwy[7]. Yn fuan ar ôl hynny, daeth cyfle i ni ystyried a gwneud newidiadau i'r broses o ddatblygu a chymeradwyo cymwysterau, i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2017. Y prif newid a wnaethom oedd gweithio gyda rhanddeiliaid[8] er mwyn llywio Meini Prawf Cymeradwyo Pynciau[9] drafft ar gyfer pob cymhwyster ac yna, gwnaethom ymgynghori drwy gyfres o sioeau teithiol ac ymgynghoriad ar-lein[10].

Mae'r diagram canlynol yn rhoi trosolwg o'n proses cymeradwyo cymwysterau. Gellir dod o hyd i'r manylion ar ein gwefan, yma:

[6] Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Ofqual a'i rôl ar ei wefan, yma
Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Cymwysterau Cymru a'i rôl ar ei wefan, yma
Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am CCEA a'i rôl ar ei wefan, yma

[7] Caiff cymwysterau cymeradwy eu datblygu a'u cymeradwyo'n benodol i Gymru. I gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau cymeradwy, ewch i'n gwefan, yma
[8] Yn cynnwys arbenigwyr pwnc, cynrychiolwyr o ysgolion, colegau a Sefydliadau Addysg Uwch
[9] I weld ein Meini Prawf Cymeradwyo Pynciau, ewch i'n gwefan, yma
[10] I weld yr ymgynghoriad ar-lein ar gyfer pynciau a gyflwynwyd i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2017, ewch i'n gwefan, yma




Mae'r broses cymeradwyo cymwysterau rydym wedi'i chyflwyno wedi ein galluogi i gynnwys rhanddeiliaid – gan gynnwys arbenigwyr pwnc – yn y broses o bennu prif nodweddion pob cymhwyster.

Mae'r tablau isod yn dangos pa gymwysterau a gafodd eu cyflwyno a phryd.

| **I'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2015** |
| --- |
| **Cyrsiau TGAU wedi'u cymeradwyo i'w dyfarnu yng Nghymru** |
| Cymraeg Iaith<br>Llenyddiaeth Gymraeg<br>Llenyddiaeth Saesneg<br>Saesneg Iaith<br>Mathemateg<br>Mathemateg - Rhifedd |

**Cyrsiau Safon Uwch i'w dyfarnu yng Nghymru**

Celf a Dylunio
Bioleg
Busnes
Cemeg
Cyfrifiadureg
Economeg
Saesneg Iaith
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth
Llenyddiaeth Saesneg
Hanes
Seicoleg
Ffiseg
Cymdeithaseg
Cymraeg Iaith

**I'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2016**

**Cyrsiau TGAU wedi'u cymeradwyo i'w dyfarnu yng Nghymru**

Gwyddoniaeth Gymhwysol Gradd Unigol
Gwyddoniaeth Gymhwysol Dwyradd
Celf a Dylunio
Bioleg
Cemeg
Drama
Bwyd a Maeth
Ffrangeg
Daearyddiaeth
Almaeneg
Cerddoriaeth
Addysg Gorfforol (cwrs llawn)
Ffiseg

Sbaeneg
Gwyddoniaeth Dwyradd

**Cyrsiau Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo i'w dyfarnu yng Nghymru**

Drama
Ffrangeg
Daearyddiaeth
Almaeneg
Cerddoriaeth
Addysg Gorfforol
Astudiaethau Crefyddol
Sbaeneg
Cymraeg Ail Iaith

**I'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2017**

**Cyrsiau TGAU wedi'u cymeradwyo i'w dyfarnu yng Nghymru**

Busnes
Cyfrifiadureg
Dylunio a Thechnoleg
Hanes
Astudiaethau'r Cyfryngau
Addysg Gorfforol (cwrs byr)
Astudiaethau Crefyddol
Cymraeg Ail Iaith

**Cyrsiau Safon Uwch wedi'u cymeradwyo i'w dyfarnu yng Nghymru**

Dylunio a Thechnoleg
Mathemateg Bellach
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
Mathemateg
Astudiaethau'r Cyfryngau
Y Gyfraith

Adnoddau a hyfforddiant

Fel y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol yng Nghymru, rydym yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff dyfarnu gynhyrchu digon o adnoddau er mwyn sicrhau bod athrawon yn gallu paratoi dysgwyr ar gyfer eu harholiadau [11]. Fel arfer, mae'r rhain yn cynnwys y fanyleb a'r deunyddiau asesu enghreifftiol yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac maent ar gael ar yr un pryd yn y ddwy iaith ar gyfer yr holl gymwysterau a gyflwynir.

Fodd bynnag, cafodd argaeledd ac amseroldeb adnoddau addysgu a dysgu ychwanegol, megis gwerslyfrau – yn enwedig drwy gyfrwng y Gymraeg – ei nodi fel problem yn ystod y rhaglen diwygio. O ystyried bod y rhain ar gael yn bennaf drwy gyhoeddwyr masnachol, a'u bod y tu hwnt i'n pwerau rheoleiddio, nid oes gennym reolaeth uniongyrchol dros beth sydd ar gael at ddibenion addysgu a dysgu.

Fodd bynnag, rydym wedi bod yn gweithio gyda CBAC, Llywodraeth Cymru a'r consortia addysg rhanbarthol i hwyluso ac egluro'r hyfforddiant a'r adnoddau a gynigir i gefnogi'r broses o gyflwyno'r cymwysterau newydd.

Ar gyfer pob un o'r cymwysterau a gafodd eu cyflwyno yn 2017, gwnaethom gynhyrchu trosolwg o'r hyfforddiant a'r adnoddau sydd, yr ydym ar ddeall, ar gael i helpu athrawon i baratoi ac ar gyfer cymwysterau newydd a'u haddysgu. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan

Dynodi cymwysterau nad ydynt wedi'u diwygio'n benodol i Gymru

Mae rhai pynciau lle roedd nifer tebygol y myfyrwyr a fyddai'n astudio'n pwnc yn golygu nad oedd yn hyfyw i ddatblygu cymwysterau TGAU a Safon Uwch penodol ar gyfer Cymru yn unig.

[11] Gweler amod A5 o'n Hamodau Cydnabod y mae'n ofynnol i'r holl gyrff dyfarnu gydymffurfio ag ef ar ein gwefan, yma

Fodd bynnag, er mwyn i ddysgwyr yng Nghymru allu astudio cymwysterau yn y pynciau hyn, gall dysgwyr a ariennir gan y wladwriaeth ddewis o blith y cymwysterau TGAU a Safon Uwch a ddiwygiwyd yn Lloegr lle nad oes cymhwyster TGAU neu Safon Uwch penodol i Gymru ar gael – ar yr amod ein bod wedi dynodi'r cymwysterau[12] hynny'n gymwysterau sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym ond yn dynodi cymhwyster TGAU neu Safon Uwch mewn pwnc sydd wedi'i ddiwygio yn Lloegr os nad oes cymhwyster cyfatebol cymeradwy ar gael yng Nghymru ac os yw wedi'i achredu gan Ofqual.

Caiff y cyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hyn yn Lloegr benderfynu a ydynt am wneud cais i'w dynodi yng Nghymru.

Mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu sy'n dewis cynnig y cymwysterau hyn yng Nghymru gyhoeddi datganiad ar gyfer pob cymhwyster sy'n cadarnhau p'un a yw ar gael yn Gymraeg ac, os felly, yn egluro sut i ofyn am asesiad yn Gymraeg.

[12] I gael rhagor o wybodaeth am ddynodi cymwysterau, ewch i'n gwefan